

Yn yr aseiniad yma rwyf yn bwriadu edrych a sôn am fy nheimpladau ynglŷn â fy mhrofiad dysgu proffesiynol 1 (P.A.P.1). Ar ddechrau fy mhrofiad dysgu teimlais yn nerfus iawn oherwydd ei fod yn sefyllfa hollol anghyfarwydd er hyn roeddwn hefyd yn awyddus iawn i gael y cyfle i weithio gyda'r plant ac erbyn diwedd y cyfnod cyntaf roeddwn yn awyddus iawn i gael y cyfle i ddysgu gwersi cyfan.

Yn yr wythnos gyntaf fe oeddwn yn arsylwi ar wersi'r athro dosbarth er mwyn chael teimlad am sut roedd y dosbarth yn cael ei threfni a pha strategaeth roedd o'r defnyddio. Yn yr wythnos gyntaf fy nharged yn bersonol oedd dysgu enwau'r disgyblion ac i ddechrau magu perthynas proffesiynol gyda'r disgyblion. Roedd hwn yn bwysig oherwydd roeddwn am i'r disgyblion i ddeall ohonom ni yna i'w cynorthwyo ac i'w chefnogi wrth iddynt geisio cyrraedd y nodau dysgu ac nid oeddwn yn ffrind iddynt. 'Forming strong and supportive relationships with teachers allows students to feel safer and more secure in the school setting, feel more competent, make more positive connections with peers, and make greater academic gains.' (Hamre & Pianta, 2006).

Mae magu perthynas da gyda'r disgyblion yn allweddol pan mae'n dod i ddefnyddio strategaeth rheolaeth ddosbarth. Roedd yr athro dosbarth yn defnyddio llawer o wahanol strategaeth er mwyn rheoli ymddygiad y disgyblion megis siart ymddygiad (polisi sydd yn cael ei defnyddio ar draws yr ysgol). Erbyn diwedd yr wythnos gyntaf roeddwn i wedi llwyddo i ddysgu enwau'r disgyblion i gyd a'i grwpiau dysgu gwahanol ac wedi dechrau magu perthynas gyda'r disgyblion. Credaf fod y parch wnes i fagu wrth y disgyblion yn yr wythnos gyntaf wedi helpi lawer pan ddaeth yr amser i ddechrau addysgu. Roedd y plant yn barod i ddysgu ac yn medru gwrando yn astud ar y cyfarwyddiadau, ni chefais fawr ddim trwbl ymddygiad gan ddim u o'r disgyblion.

Yn yr wythnos addysgu cyntaf fe ddechreuais gan arwain grwpiau dysgu ar dasg ffocws. Wrth wneud hwn roedd rhaid sicrhau fy mod i yn denu sylw pob disgybl yn y grŵp trwy gydol y wers. I wneud hyn roedd rhaid sicrhau fod y pwnc a chyd-destun y wers yn ddiddorol, roedd rhaid sicrhau fod y gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu yn addas fel nad oedd y disgyblion yn dechrau drysu oherwydd nid oedden yn medru cwblhau'r dasg. Roedd hwn yn gyfle da i fedru defnyddio damcaniaeth Vygotsky o'r 'Zone of proximal development' yn ymarferol er mwyn gallu sicrhau roedd y plant yn medru dysgu rhywbeth o werth yn y dasg. Roeddwn hefyd yn sicrhau roedd gan y disgyblion i wneud ac roedd

popeth wedi paratoi o flaen llaw fel nad oeddent yn eistedd yn segur ac yna yn colli diddordeb.

Wrth addysgu fe wnes i geisio defnyddio strategaeth ymddygiad yr ysgol er mwyn cadw rheolaeth. Yn hytrach nag defnyddio fel bygythiad o oblygiadau gwael fe ohonom ni yn ceisio defnyddio'r siart ymddygiad fel cymhelliant ac i wobrwyo ymddygiad/ymdrech dda. 'Children need praise, encouragement and at times a reward to help their motivation with general day to day tasks or especially when they are achieving new goals such as learning to walk, eating vegetables or sitting exams.' (parentingNI.org, 2018). Mae gwobrwyo ddisgyblion am ymdrech dda yn ystod y dydd yn bwysig iawn oherwydd mae'n cynnal teimlad o gyflawniad sydd yn ei chymell i ail adrodd ymddygiad da ac brwydfryder yn ystod wers. Mae defnyddio strategaeth ymddygiad fel y siart ymddygiad er mwyn cosbi a gwobrwyo'r disgyblion hefyd yn helpi i adeiladu parch rhwngddda i a'r disgyblion oherwydd maent yn gwybod os nad ydynt yn ymddwyn yn gymwys yr un peth yn fy ngwersi i ac yr ydynt yn wersi'r athro arferol fyddent yn wynebu'r un goblygiadau.

Un o'r polisiâu ysgol gyfan fe wnes i fabwysiadu oedd yr arfer o roi copi caled o nod y wers a'r meini prawf llwyddiant i bob disgybl i gludo yn eu llyfrau ar ddechrau'r wers (gelwir y taflenni yma yn budsies, gwelir atodiad 1). credaf fod yr arfer yma wedi bod yn ddefnyddiol iawn nid yn unig i'r disgyblion ond i mi hefyd. Mae rhoi copi caled o'r meini prawf yn galluogi plant i weld yn union ddisgwyliadau'r dasg ac yn rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar ei waith trwy wneud hunan asesu ac yna asesu cyfoedion. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r athro defnyddio strategaeth asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn yn clymu i mewn i un o fy nhargedau cefais gan y mentor dosbarth, sef sicrhau fwy cyfleoedd ar gyfer asesu ar gyfer dysgu yn fwy gwersi. Mae defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn y dosbarth yn bwysig iawn oherwydd mae'n galluogi i'r athro asesu gallu'r dysgwyr yn ystod y dasg ac asesu ei dealltwriaeth o'r dasg.

Yn ogystal â hyn mae hefyd yn ffordd dda o ymestyn y disgybl, trwy ddefnyddio cwestiynau allweddol a nodi'r yn y cynllun gwers i asesu dealltwriaeth y disgybl. Er mwyn gweithredu ar y targed yma fe oeddwn yn cynllunio cyfleoedd ar gyfer dysgu yn fanwl a cheisio i ddefnyddio trwy gydol y wers yn hytrach nag yn y cyflwyniad/diweddglo yn unig. roeddwn yn ceisio defnyddio gemau megis bingo amser ar gyfer fathemateg neu 'hot potato' geiriau wow ar gyfer gwersi iaith. Yn ogystal â hyn roeddwn yn defnyddio cwestiynau allweddol yn ystod y gweithgaredd, e.e.. yn y wers adverbs pan oedd

ddisgybl wedi defnyddio adverb a oedd tu hwnt i'r rhai a nodi'r a'r y mat cymorth oeddwn yn gofyn iddynt i esbonio ystyr y gair er mwyn sicrhau yr oedden t yn deall y gair ac nid yn unig wedi ei phigo ar hap.

Ar ddechrau'r cyfnod addysgu roeddwn yn gweld gwahaniaethu'r gwaith ar gyfer gallu gwahanol y disgyblion yn anodd oherwydd nid oeddwn yn gyfarwydd gyda gallu'r plant. Ond wrth fynd ymlaen roedd gwahaniaethu'r gwaith yn dod yn haws ac yn fwy naturiol gan fy mod wedi dechrau dod i ddeall gallu'r plant a gan ddefnyddio'r dogfennau tracio (cofnod olrhain). Roedd y cofnodion olrhain yn fy ngalluogi i dracio cynnydd y plant yn y gwersi yr oeddwn yn dysgu ac felly roeddwn yn gwybod pa ddisgyblion oedd yn wneud cynnydd da ac angen ei ymestyn ym mhellach a pha ddisgyblion oedd angen fwy o gymorth i gyrraedd y nod dysgu.

Mae hyn yn clymu i mewn i ddau o'n dargedau sef sicrhau tystiolaeth o asesu yn ddyddiol a sicrhau fy mod yn talu fwy o sylw at y disgyblion efallai sydd yn gweld y gwaith yn anodd. Y pwynt gweithredu cyntaf ar gyfer y targed yma oedd sicrhau fy mod yn cwblhau dogfen tracio ar gyfer pob gwर्स cyn addysgu'r wers nesaf. roedd hwn yn fyn ngalluogi i mi ddefnyddio'r ddogfen yma ar gyfer cynllunio'r wers nesaf ac felly yr oeddwn yn gwybod pa ddisgyblion efallai fydd angen fwy o gymorth i gyrraedd nod y wers. Trwy ddefnyddio'r wybodaeth yma roeddwn yn medru gwahaniaethu'r gwersi yn llawer hawddach. Mae tracio cynnydd dyddiol yn allweddol bwysig i fedru teilwra gwersi i anghenion penodol ddisgyblion. Roedd gweithredai ar gyfer y targed blaenorol sef sicrhau fwy o gyfleoedd ar gyfer asesu ar gyfer dysgu yn ddefnyddiol wrth geisio cyflawni'r targed yma oherwydd roedd sicrhau cyfleoedd asesu ar gyfer dysgu yn y gwersi yn gyfle da i allu asesu gallu'r disgyblion ar gyfer yn ddogfennau tracio.

Y targed nesaf cefais gan fy mentor dosbarth oedd ceisio rhoi fwy o gyfleoedd i ddisgyblion cydweithio. Roedd hwn yn darged pwysig iawn oherwydd yn ystod fy wythnos yn arsylwi a tra fy mod yn addysgu un o fy ngwersi cyntaf sylweddolais fod rhai disgyblion yn ei weld yn anodd gweithio mewn grwpiau. Roedd hwn yn darged pwysig iawn i weithredu arno oherwydd mae'r gallu i weithio mewn tîm yn sgil angenrheidiol ar gyfer y byd gwaith. Fel athrawon mae'n holl bwysig ein bod yn sicrhau fod gan ddisgyblion y sgiliau pwysig yma ar gyfer bywyd pob dydd. Er mwyn cyflawni'r targed yma roedd angen i mi sicrhau fy mod yn cynllunio cymaint o gyfleoedd a oedd o bosibl i ddisgyblion cyd weithio.

Un o'r ffyrdd nes i hwn oedd cynllunio i ddefnyddiau gemau grŵp yn hytrach na gemau unigol ar gyfer fy asesu ar gyfer dysgu yn y cyflwyniad a diweddsglo, yn ogystal â hyn wnes i geisio sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwaith pâr fel rhan o brif weithgaredd y wers. Ond yn ogystal ag cynllunio ar gyfer cyfleoedd i ddisgyblion cyd weithio roedd rhaid i mi sicrhau roeddent yn medru cyd weithio yn dda. *'If you come upon a group that is experiencing uncertainty or disagreement, avoid the natural tendency to give the answers or resolve the disagreement. If necessary, clarify your instructions, but let students struggle — within reason — to accomplish the task'* (Race, 2000). dywed Race ei fod yn bwysig i adael i ddisgyblion datrys problemau ei hunain oherwydd nid ydynt yn gallu datblygu sgiliau cydweithio os yw'r athro o hyd yn camu i mewn ac yn datrys y broblem iddyn nhw. Fe geisies fabwysiadu'r agwedd yma tuag at waith grŵp er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu sgiliau cydweithio.

Erbyn y Profiad nesaf byddaf yn edrych ar ddatblygu rhai o fy nhargedau personol i yn ogystal ag y targedau mentor a thiwtor rwyf wedi sôn amdano yn yr aseiniad yma. Un o fy nhargedau personol i yw gwella fy sgiliau rheoli amser. Yn aml iawn roeddwn yn gadael i weithgareddau gôr rhedeg er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion orffen y dasg ac roedd hwn yn dod a llai o amser ar gyfer fy niweddsglo ac asesu ar gyfer dysgu. Llauer o'r amser yn fy nogfennau BWA roeddwn yn sylweddoli bydda'r 5 munud ychwanegol yn y gweithgaredd asesu ar gyfer dysgu ar ddiwedd y wers wedi bod llauer fwy defnyddiol a werthfawr i mi ac i'r disgyblion nag y 5 munud diwethaf yn ceisio gorffen y prif weithgaredd.

Llyfryddiaeth

- Parentingniorg. 2015. The Importance of Praise and Encouragement . [Online]. [22 March 2019]. Available from: <http://www.parentingni.org/wp-content/uploads/2016/04/Importance-of-Praise-and-Encouragement-2.pdf>.
- Hamre, B. K., & Pianta, R. C. (2006). Student-Teacher Relationships. In G. G. Bear & K. M. Minke (Eds.), *Children's needs III: Development, prevention, and intervention* (pp. 59-71). Washington, DC, US: National Association of School Psychologists.
- Race, P. (2000). 500 Tips on Group Learning. London: Kogan Page.

